CFfG/2021/ 2il Gyfarfod

**Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 16:30 ddydd Mawrth 23 Chwefror 2021 trwy gyfrwng Microsoft Teams.

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Mrs Ustus Jefford | Dirprwy Gadeirydd |
| Aaron Sollis | Asesydd (Arolwg Ordnans) |
| Huw Vaughan Thomas | Comisiynydd |
| Sam Hartley | Comisiynydd |
| Shereen Williams | Ysgrifennydd y Comisiwn |
| Tom Jenkins | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |
| Rhydian Fitter | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |
| Hannah Toor | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |

**Amser Dechrau:** 16:30
**Amser Gorffen:** 18:00

## 1. CYFLWYNIAD, SYLWADAU AGORIADOL A DATGAN BUDDIANNAU

1.1. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2.1. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Neil Park, Asesydd (y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

3.1. **Cytunodd** y Comisiwn ar gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ddydd Mawrth 26 Ionawr 2021.

## 4. MATERION YN CODI

4.1. Rhoddodd yr Ysgrifennydd ddiweddariadau ar Faterion yn codi o gyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2021.

**Mater 1 – Gwrandawiadau Cyhoeddus**

4.2. Bydd y Comisiwn Ffiniau i Loegr (BCE) yn holi'r Tîm Cyfansoddiad yn Swyddfa'r Cabinet ynghylch cynnwys darpariaeth gwrandawiadau cyhoeddus fel rhan o Fil. Bydd diweddariad yn cael ei rannu yng nghyfarfod nesaf yr Ysgrifenyddion.

4.3. **Cytunwyd** y bydd gwrandawiadau cyhoeddus yn eitem dreigl ar yr agenda.

4.4. **Cytunwyd** y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch sut i gynnal gwrandawiadau cyhoeddus cyn dechrau'r cyfnod ymgynghori cyntaf, a'r opsiwn delfrydol fyddai'r Comisiwn yn cynnal gwrandawiadau hybrid

**Mater 2 – Cyngor Cyfreithiol**

4.5. Mae BCE a CFfG wedi cytuno i ddull Cynghorwyr Cyfreithiol Swyddfa'r Cabinet (COLA) o roi'r gwaith ar gontract allanol i Gwnsler os na allant ymateb i ymholiadau cyfreithiol.

**Mater 3 – Asesu Effeithiau**

4.6. Cytunwyd yn flaenorol y bydd y pedwar Comisiwn yn gweithio'n agos ar baratoi'r Asesiadau o Effeithiau ar gyfer Arolwg 2023.

## 5. COFRESTR RISG

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 16 Chwefror 2021 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni a **nodwyd** bod y newidiadau a **gytunwyd** yn y cyfarfod diwethaf wedi'u gwneud.

5.2. Bydd teitl CFfG 16 yn cael ei ddiwygio i gydnabod bod risg ynghlwm wrth wrandawiadau cyhoeddus. **Cytunwyd** i gynyddu'r risg IL oherwydd y cyfyngiadau Covid-19 parhaus, a'r posibilrwydd o gynnal gwrandawiadau ar-lein a hybrid.

5.3. Mae CFfG 3 wedi'i **ddatrys**.

5.4. Cynhaliodd y Comisiwn fwrdd tendro a gytunodd ar y cyflenwr a ffefrir i ddarparu'r porth ymgynghori ar-lein. Bydd contract yn cael ei ddrafftio a'i lofnodi a rhoddir diweddariad gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn y cyfarfod nesaf.

5.5. **Gweithredu:** Bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn diweddaru CFfG 5 a CFfG 16 ar y gofrestr risg yn y cyfarfod nesaf.

## 6. POLISI CWYNION

6.1. Bu’r Comisiwn yn ystyried y Polisi Cwynion wedi’i ddiweddaru a **chytunodd** i fabwysiadu’r polisi ar ei ffurf bresennol ar gyfer Arolwg 2023, yn amodol ar wneud y mân newidiadau:

6.2. Cadarnheir y trefniadau mewn perthynas â’r adran sy’n ymwneud â ‘defnyddio arian cyhoeddus’.

6.3. **Gweithredu:** Bydd yr Ysgrifennydd yn gweithredu’r diwygiad.

## 7. Y CYFARFOD BRIFFIO CYCHWYNNOL Â RHANDDEILIAID ALLWEDDOL

7.1. Bu’r Comisiwn yn ystyried y sgriptiau briffio cychwynnol wedi’u diweddaru a **chytunwyd** i gymeradwyo’r ychwanegiadau a’r dec sleidiau ar gyfer y cyfarfod, yn amodol ar wneud mân newidiadau.

7.2. **Nodwyd** bod y sleidiau’n cynnwys llawer iawn o fanylion ac awgrymwyd y dylid cwtogi’r wybodaeth ar y sleidiau.

7.3. **Cytunwyd** y bydd yr ysgrifenyddiaeth yn cwtogi’r wybodaeth sydd ei hangen ar sleidiau’r cyflwyniad ac yn addasu’r sleidiau ar gyfer y grwpiau gwahanol.

7.4. **Cytunwyd** y bydd aelodau’r Comisiwn a’r ysgrifenyddiaeth yn mewngofnodi 15 munud cyn y cyfarfod.

7.5. **Cytunwyd** i roi gwybod i’r mynychwyr y bydd pawb sy’n bresennol yn cael eu tawelu oni bai eu bod yn cymryd rhan yn y cyflwyniad.

7.6. **Nodwyd** bod y Comisiwn wedi derbyn cwestiynau ymlaen llaw gan y Ceidwadwyr a’r blaid Lafur. Ymdrinnir â nifer o’r cwestiynau yn y cyflwyniad.

7.7. **Gweithredu:** Bydd yr Ysgrifennydd yn cwtogi cynnwys y sleidiau.

7.8. **Gweithredu:** Bydd yr Ysgrifennydd yn anfon pecyn briffio at aelodau’r Comisiwn.

## 8. STRATEGAETH GYFATHREBU

8.1. Bu’r Comisiwn yn ystyried y Strategaeth Gyfathrebu ddyddiedig 09 Chwefror 2021 gan y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, a **chytunwyd** i ailedrych ar y dyraniad cyllidebol yn y cyfarfod nesaf.

8.2. **Nodwyd** mai cyfanswm cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2022 ar hyn o bryd yw £32,000, a’r gyllideb ar gyfer 2023 ar hyn o bryd yw £25,000. Mae’r cyllidebau hyn yn seiliedig ar yr arolwg blaenorol, ac yn ystod yr arolwg blaenorol, allanolwyd y cyfathrebu.

8.3. **Nodwyd** bod y Strategaeth Gyfathrebu wedi’i chynllunio’n dda, ond er mwyn cyflawni’r strategaeth, byddai angen cynyddu dyraniad y gyllideb.

8.4. **Gweithredu:** Bydd y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn adolygu dyraniad cyllideb y strategaeth ar gyfer y cyfarfod nesaf.

## 9. ADRODDIAD AR Y CYNIGION CYCHWYNNOL

9.1. Bu'r Comisiwn yn ystyried Braslun yr Adroddiad a ddrafftiwyd, a **chymeradwywyd** gosodiad a fformat yr adroddiad.

9.2. **Gweithredu:** Cynnwys fersiwn ddrafft o'r adroddiad ar agenda'r cyfarfod ym mis Ebrill.

9.3. **Gweithredu:** Bydd y Comisiynwyr yn anfon sylwadau mewn neges e-bost at y Pennaeth Polisi a Rhaglenni cyn i'r papurau gael eu dosbarthu ym mis Ebrill.

## 10. ADRODDIAD GWERSI A DDYSGWYD 2018 – DIWEDDARIAD AR YR ARGYMHELLION

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig mis Chwefror 2021 gan yr Ysgrifennydd, a **nodwyd** y cynnydd ar weithredu'r argymhellion yn yr adroddiad gwersi a ddysgwyd.

10.2. Rhoddodd yr Ysgrifennydd ddiweddariad o fewn yr adroddiad, gan roi dyddiadau'r cyfarfodydd â phleidiau gwleidyddol, rhanddeiliaid a'r broses gaffael ar gyfer y porth.

## 11. UNRHYW FUSNES ARALL

11.1. Cafwyd trafodaeth ynghylch y cynllun cyhoeddi a natur y dogfennau sy'n cael eu rhannu.

11.2. **Nodwyd** bod angen cael polisi clir ar waith ynghylch datgelu mewn perthynas â phapurau, yn enwedig os oes gwybodaeth sensitif a chyfrinachol.

11.3. **Gweithredu:** Bydd yr Ysgrifennydd yn dod â phapur ar ddatgelu i'r cyfarfod nesaf.

11.4. Dywedodd yr Ysgrifennydd wrth aelodau'r Comisiwn y bydd cyflwyniad ar Arolwg 2023 yn cael ei wneud yng nghyfarfod gwanwyn cangen Cymru o Gymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol Cymru ar 2 Mawrth 2021.

11.5. Rhoddodd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni ddiweddariad ar gais Comisiynydd y Gymraeg i weld y rhestr o enwau arfaethedig etholaethau ymlaen llaw.

11.6. Bu’r Comisiwn yn trafod y sefyllfa a **chytunwyd** y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cael ei gwahodd i ymateb yn y ffordd arferol yn unol ag amserlenni cyfreithiol.

11.7. Rhoddodd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni ddiweddariad ar y Canllaw i’r Arolwg y cytunwyd arno, a chafodd y proflenni eu dychwelyd ddydd Llun. Mae yn nwylo’r cyfieithwyr ar hyn o bryd, a disgwylir y caiff ei ddychwelyd ar 2 Mawrth 2021. Wedi hynny, bydd yn cael ei ddiweddaru â’r brandio. Mae’r Comisiwn yn bwriadu cyhoeddi’r Canllaw yn dilyn cyfarfod briffio’r ASau, a bydd copïau caled yn cael eu hanfon yr wythnos ganlynol.

11.8. **Nodwyd**, mewn perthynas â’r cyfarfodydd ynghylch cynlluniau, y bydd 9 cynllun i’w cyflwyno, sef 3 chynllun ym mhob sesiwn a’r sesiwn olaf yn rhydd ar gyfer unrhyw fusnes arall.

11.9. **Gweithredu:** Bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn anfon papurau briffio’r cynllun ar 2 Mawrth at y Comisiynwyr, ynghyd â chopïau caled.

11.10. **Cytunwyd** mai dyddiad y cyfarfod nesaf yw dydd Mawrth 27 Ebrill 2021.